



3/12/12

Annwyl Riant / Warcheidwad

A hithau bellach yn agosáu at ddiwedd y tymor teimlwn y dylem gasglu barn rhanddeiliad yr ysgol fel rhan o'n prosesau hunan arfarnu. Gofynnwn yn garedig felly i chwi fel rhieni a gwarcheidwaid i lenwi holiadur yn nodi eich barn am y gwaasaneth a gynigiwn i'r dysgwyr ac i chi.

I sicrhau ansawdd yn y broses ein bwriad yw defnyddio holiaduron Estyn ar gyfer rhieni. Gofynnwn felly am eich cydweithrediad yn y mater yma gan ofyn i chi gymryd ychydig funudau i lenwi'r holiadur ar-lein ar y wefan: <http://holi.cynnal.co.uk>. Darparwn isod enw defnyddiwr a chyfrinair i chi ar gyfer y dasg:

Enw defnyddiwr: rhienitryfan
Cyfrinair: tryfan

Ewch i'r dudalen we uchod, mewngofnodwch gyda'r manylion (Enw defnyddiwr a Chyfrinair), yna dewiswch yr holiadur o'r enw: **Holiadur Rhieni Estyn 2012**

Yna: **Cliciwch yma i gychwyn yr Holiadur Rhieni 2012 - Click here to start the 2012 Parents Questionnaire.** Wedi i chi ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm: **Cyflwyno'r Holiadur.**

Mae'r holiaduron hyn ar gael i chi eisoes ar y wefan uchod a byddant ar gael yno tan hanner dydd Rhagfyr 20fed 2012 - ar ôl y dyddiad hwnnw ni fydd modd llenwi'r holiadur ar-lein. Hoffwn ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn y broses hon a hoffwn hefyd ddiolch i gwmni Cynnal am eu cefnogaeth yn cyflwyno'r holiadur hwn i chi ac am y gwaith dadansoddi sydd i ddod. Bydd eich barn yn werthfawr iawn yn y broses hunan arfarnu ac yn sail i ni osod blaenoriaethau i'r ysgol ar gyfer y dyfodol.

Cyn cloi hoffwn eich hysbysu fod Adroddiad Llawn Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni bellach ar gael ar wefan yr ysgol – yn yr adran Rhieni. Dylech fod wedi derbyn copi o'r Adroddiad Cryno eisoes trwy law eich plentyn. Hoffwn ddiolch hefyd i Gyfeillion Ysgol Tryfan am drefnu Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn neuadd yr ysgol ddydd Sadwrn diwethaf. Roedd brwdfrydedd y disgyblion a chefnogaeth y rhieni yn galonogol iawn ac yn ddechrau da i fis Rhagfyr ac i ddatliadau'r Nadolig. Bydd y datliadau hynny yn cyrraedd penllanw i ni yn Ysgol Tryfan gyda'r Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan am 6.30 nos Wener Rhagfyr 14 – dewch yn llw!

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth